# Mesur Bwyta'n Iach mewn Ysgolion (Cymru) 2009

**2009 mccc 3**

**10 Gorchmynion a rheoliadau**

(1) Mae unrhyw bŵer i wneud gorchymyn neu reoliadau a roddir gan y Mesur hwn yn arferadwy drwy offeryn statudol.

(2) Mae unrhyw bŵer sydd gan Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau o dan y Mesur hwn yn cynnwys pŵer—

(a) i wneud darpariaeth yn gyffredinol neu mewn perthynas ag achosion penodol,

(b) i wneud darpariaethau gwahanol ar gyfer achosion gwahanol, ac

(c) i wneud y cyfryw ddarpariaeth gysylltiedig, atodol, arbed neu drosiannol y gwêl Gweinidogion Cymru yn dda.

(3) Caniateir i unrhyw bŵer sydd gan Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau neu orchmynion o dan y Mesur hwn (yn ogystal â bod yn arferadwy mewn perthynas â'r holl achosion y mae'n gymwys iddynt) gael ei arfer mewn perthynas â'r holl achosion hynny yn ddarostyngedig i eithriadau neu mewn perthynas ag unrhyw achos penodol neu ddosbarth penodol o achosion.

(4) Yn ddarostyngedig i is-adran (5) mae unrhyw offeryn statudol sy'n cynnwys gorchymyn neu reoliadau a wneir o dan y Mesur hwn yn agored i gael ei ddiddymu yn unol â phenderfyniad gan y Cynulliad.

(5) Nid yw is-adran (4) yn gymwys i offeryn statudol sy'n cynnwys gorchymyn sy'n gwneud darpariaeth o dan adran 12(3) yn unig.